# ytafod

cylchgrawn cymdeithas yr iaith



**Rali Nid yw Cymru ar Werth**

**Cell ieuenctid newydd – CRYMGI**

**Llety Arall – ar agor unwaith eto!**

**haf 2021**

# ytafod

Rhifyn **haf 2021**




Golygyddion: **Mared Llywelyn** a **Carol Jenkins**
Dylunio a Chysodi: **Carwyn Hedd**
Lluniau o'r Rali: **Lleucu Meinir**




## Gair o'r gadair

Mae gan bawb yr hawl i gartref yn eu cymuned.

Ond mae llywodraethau dros y degawdau wedi trin tai fel eiddo i wneud elw, yn lle cartrefi, a blaenoriaethu cyfalaf yn lle cymunedau. Mae'r canlyniadau wedi bod yn drychinebus i bobl gyffredin, ein cymunedau a'r Gymraeg – ac maen nhw'n gwaethygu.

Dw i'n dod o ardal o Gaerdydd lle mae prisiau tai wedi ffrwydro dros y blynyddoedd diwethaf, a phobl ifanc wnaeth dyfu lan yna ddim yn gallu fforddio rhentu na phrynu. Mae'r darlun yn wahanol mewn gwahanol gymunedau ond yr un yw'r achosion – y farchnad rydd, anghyfartaledd cyfoeth a gwleidyddion di-ots, a'r un yw'r canlyniad – elw i'r cyfoethog, anghyfiawnder i bobl gyffredin a dirywiad ein cymunedau.



Mae rhywbeth mawr wedi mynd o'i le mewn cymdeithas lle mae gan rai pobl ddau dŷ, tra bod eraill yn ddigartref. Lle mae ein diffiniad o dŷ 'fforddiadwy' y tu hwnt i gyrraedd pobl ar gyflogau lleol. A lle gall datblygwyr a'r cyfoethog ddod i mewn i gymuned o'r tu fas a gwneud be bynnag maen nhw moyn, dim ots am farn y bobl leol na'r effaith arnynt.

Ond canlyniad penderfyniadau gwleidyddol yw'r rhain i gyd, nid rhywbeth anochel – ac felly mae modd eu newid.

Rydyn ni wedi clywed gan y Llywodraeth beth yw eu cynllun nhw i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Maen nhw wedi cydnabod effaith y farchnad dai ar ein cymunedau a'r iaith – diolch i'r pwyso sydd wedi dod gan ymgyrchwyr. Ond yr hyn rydyn ni wedi'i glywed ganddyn nhw ydy ymrwymiadau di-uchelgais, a chynlluniau peilot ac ymgynghoriadau fydd yn cymryd blynyddoedd i wneud gwahaniaeth. Blynyddoedd nad oes gennym i'w wastraffu.

Mae gyda ni'r atebion, yr hyn sydd ei angen yw ewyllys gwleidyddol.

Fel man cychwyn, rydyn ni'n galw ar y Llywodraeth i gymryd camau brys yn cynnwys cyflwyno trethi newydd ar dwristiaeth, ail dai, elw



landlordiaid ac AirBnB a buddsoddi'r elw mewn i gymunedau lleol a thai mewn dwylo cyhoeddus. Mae hefyd angen rheoleiddio AirBnB a chau'r bylchau yn y gyfraith sy'n caniatáu i bobl osgoi trethi. Ac wedyn mae

angen Deddf Eiddo, fydd yn cynnwys gosod cap ar ganran yr ail dai neu dai haf sydd mewn cymuned; newid y diffiniad o dai fforddiadwy a rheoli prisiau tai a rhent fel eu bod nhw'n fforddiadwy i bobl leol; datganoli grymoedd cynllunio a rhoi blaenoriaeth i bobl leol yn y farchnad dai.




Ond rhaid cofio hefyd bod yr hawl i fyw adra am fwy na thai yn unig. Mae hefyd yn golygu cyfleoedd i'n pobl ifanc, buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol a chadw ein hysgolion bach – o Abersoch i Dalwrn i Fynydd-y-Garreg. Bydd yr iaith yn fyw mewn cymunedau byw, ac mae'n bwysig i'n gwleidyddion ar bob lefel gofio hynny.

Ond – a dyma un peth mae Cymdeithas yr Iaith yn ei wybod ar ôl bron i 60 mlynedd o ymgyrchu – ni fydd gwleidyddion yn gwneud yr hyn sydd ei angen ar ein cymunedau, ein hiaith a phobl gyffredin, oni bai ein bod ni'n sicrhau hynny. Mae angen ymgyrchu, ac mae angen i bob un ohonon ni wneud hynny.

Gyda'n gilydd mae'r grym gyda *ni*. Rydyn ni wedi ennill y Gymraeg fel ystyriaeth yn y system gynllunio a chyflwyno treth cyngor uwch ar ail dai, ac fe enillwn ni ddeddf eiddo hefyd.






I gloi, hoffwn i rannu neges gan un o'n haelodau o Landybïe, sef Hazel Charles Evans. Yn drist iawn, buodd Hazel farw yn ddiweddar ar ôl salwch. Roedd Hazel wedi brwydro drwy ei hoes gyda Chymdeithas yr Iaith a byddai wedi dymuno bod yn ein rali yn Nhryweryn, felly anfonodd hi neges i ni ei darllen ar ei rhan. Dyma hi:

*Mae'n amser cyffrous. Fel yr hoffwn fod yng nghanol y bwrlwm heddiw, yn profi o her ac angerdd y rali ond gwaetha'r modd rwyf mewn gwaeledd a gwendid. Fy neges yw NID YW CYMRU AR WERTH! Rhaid i bobl Cymru wrth dai fforddiadwy yn eu cymunedau eu hunain. Daliwch i frwydro – a brwydro o ddifrif. Galwn ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys ac mewn modd radical i sicrhau fod cymunedau lleol yn gallu rheoli'r farchnad dai a'r broses gynllunio i sicrhau cartrefi i'w pobl.*

Diolch yn fawr i Hazel am ei neges a'i gwaith oes. Atgoffâd i ni gyd ein bod ni'n cynrychioli mwy na chasgliad o unigolion wrth ymgyrchu – rydyn ni'n cynrychioli pawb na all fod gyda ni a phawb a ddaeth o'n blaenau, a mudiad cenedlaethol fydd yn parhau i frwydro dros Gymru rydd, gyfiawn, Gymraeg.

Mae llawer o golled yn hanes Cymru,




ond mae yna hefyd hanes hir o weithredu ac ennill buddugoliaethau dros ein hiaith. Doedden ni ddim yn Nhryweryn i alaru, roedden ni yno i ennill. Achos mae'n rhy hwyr i Gapel Celyn, ond dyw hi ddim yn rhy hwyr i'r un o'n cymunedau ni nawr os gwnawn ni weithredu.


*(addasiad o araith a roddwyd yn rali Nid yw Cymru ar Werth yn Nhryweryn, 10/07/21)*

*Diolch o galon i bawb wnaeth helpu gyda threfnu Rali Tryweryn, ac i bawb gefnogodd ar y diwrnod.*

*Bydd rali genedlaethol nesaf Nid yw Cymru ar Werth* ***ddydd Sadwrn y 13eg o Dachwedd*** *tu fas i'r Senedd yng Nghaerdydd. Os hoffech helpu gyda threfnu'r rali a chamau nesaf yr ymgyrch, cysylltwch â* ***post@cymdeithas.cymru****.*

# LLETY ARALL

## yn croesawu ymwelwyr eto





**Llety Arall**
10 Stryd y Plas,
Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR
01286 662907
post@lletyarall.org, lletyarall.org
Cymdeithas er Budd Cymunedol RS007378


Menter gymunedol yng nghanol tref Caernarfon yw Llety Arall sy'n darparu llety fforddiadwy i deithwyr sy'n ymweld â'r dref. Ac wrth i gyfyngiadau Cofid-19 lacio ymhellach, mae cyfle eto i ymwelwyr aros yno.

Amcan gwreiddiol Llety Arall oedd cynnig llety fforddiadwy nid yn unig i deuluoedd, cyplau ac unigolion – yn arbennig felly unrhyw un sydd â diddordeb yn iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog ac unigryw Caernarfon – ond hefyd i grwpiau o deithwyr, gan estyn gwahoddiad arbennig i grwpiau o ddysgwyr Cymraeg wedi'i deilwra i anghenion y grŵp.

Fel nifer o fusnesau eraill, roedd yn rhaid i'r fenter addasu ei chynnig yn sgil Cofid-19. Mae ystafelloedd Llety Arall bellach ar gael eto i gyplau, teuluoedd a theithwyr unigol sy'n dod i Gaernarfon ar eu gwyliau neu i ymweld â'r teulu yn yr ardal. "Rydym yn falch iawn o gael croesawu ymwelwyr eto. Ac rydym yn gwneud pob dim i sicrhau bod pawb yn ddiogel – ymwelwyr, gwirfoddolwyr a'r gymuned ehangach. Dyma'r peth pwysicaf i ni." medd Selwyn Jones, cadeirydd Llety Arall.

Mae'r fenter gymunedol yn awyddus i groesawu grwpiau o bob math a dysgwyr Cymraeg yn arbennig i Gaernarfon unwaith eto yn y dyfodol.

"Caernarfon ydy tref Gymreiciaf y byd ac felly mae'n lle perffaith i ymdrochi yn yr iaith a chael blas ar fywyd bywiog sy'n naturiol yn Gymraeg. Yma cewch chi'r profiad unigryw o wneud popeth yn Gymraeg." medd Dani Schlick, aelod o fwrdd Llety Arall.

Mae Cymdeithas yr Iaith eisoes wedi cefnogi'r fenter drwy fuddsoddi yn Llety Arall a thrwy gynnal cyrsiau preswyl i ddysgwyr yno. Gallwch chithau fel aelodau a chefnogwyr Cymdeithas yr Iaith gefnogi'r fenter drwy ddod i aros yn Llety Arall a mwynhau'r hyn sydd gan Gaernarfon i'w gynnig. Felly, ewch amdani! Ac os gwnewch chi archebu llety 3 noson ar gyfer unrhyw bryd eleni fel darllenydd y Tafod, cewch **10% o ostyngiad** drwy nodi **TAFOD21** wrth archebu yn 2021.

Nod arall sy'n ganolog i'r fenter yw bod mor amgylcheddol glên â phosib. Adnewyddwyd yr adeilad gan ddefnyddio deunyddiau, gweithwyr a chyflenwyr mor lleol â phosib. Gosodwyd paneli cynhyrchu trydan ar do'r adeilad, ac mae'r fenter yn parhau i gefnogi busnesau lleol o ddydd i ddydd. Mae ei hymwelwyr felly hefyd yn cefnogi'r economi leol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan **lletyarall.org** neu cysylltwch heddiw ar **post@lletyarall.org** neu **01286 662907**.

# MEDI'R GYMRAEG

## 25 Medi 2021

### Cefnogi siaradwyr newydd...yn eich bro

Ddydd Sadwrn, 25 Medi, bydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal digwyddiadau amrywiol ledled Cymru i ddod â dysgwyr a Chymry Cymraeg ynghyd. Dyma gyfle i gefnogi siaradwyr newydd a'u tynnu i mewn i'n cymunedau, gyda'r gobaith y bydd hyn yn arwain at fwy o weithgarwch yn y gwahanol ardaloedd.

Trefnwyr lleol sy'n gyfrifol am y digwyddiad ym mhob ardal, a byddwn yn cysylltu'n nes at yr amser gyda gwybodaeth bellach. Cadwch eich llygaid ar agor felly – a chefnogwch.

Os hoffech drefnu digwyddiad yn eich ardal, cysylltwch â swyddfa'r Gymdeithas am fwy o wybodaeth (01970 624501 neu **post@cymdeithas.cymru**).

Byddwn yn anfon canllawiau ar gyfer trefnu digwyddiad i bob trefnydd lleol, felly peidiwch â bod ofn mentro!

Gyda'r nos, bydd pawb yn dod ynghyd ar gyfer cwis dros Zoom – manylion pellach i ddilyn.

Diwrnod o hwyl yw'r nod, a chyfle i siaradwyr Cymraeg – newydd a phrofiadol – ddod at ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd er lles y Gymraeg a'n cymunedau.

Cefnogi Siaradwyr Newydd





# "Daw'r wennol yn ôl i'w nyth"

## Awel Irene, Cymdeithas y Cymod

Mae 30 Mehefin bob blwyddyn yn ddiwrnod i goffáu'r Troad Allan o Epynt. Chwe wythnos o rybudd gafodd 54 o deuluoedd oedd yn ffermio'r Epynt i adael eu cartrefi. Ym 1940, aberthwyd dyfodol cymuned Epynt i achos yr Ail Ryfel Byd, ond y gobaith ddoe a heddiw yw y "Daw'r wennol yn ôl i'w nyth".

Er taw cyfeirio at bentref Castell Martin yn Sir Benfro y mae'r gerdd hon gan Waldo Williams, mae'r un mor arwyddocaol i Fynydd Epynt. Y

gobaith yn y gerdd yw y cawn droi tir sy'n cael ei ddefnyddio i ymarfer lladd a pharatoi am ryfel yn ôl i bwrpas adeiladol a chymunedol.



Ac mae 200 o wenoliaid yn barod i hedfan o law crochenydd sy'n byw'n agos i Fynydd Epynt i gartrefi ar draws Cymru. Maen nhw ar werth ar wefan Cymdeithas yr Iaith, ac mae pob un yn unigryw (**siop.cymdeithas.cymru/gwenoliaid-epynt**).





Tanwen Wilkinson yw'r crochenydd, ac mae pob gwennol yn weithred o gofio ac o gariad. Defnyddiodd Tanwen glai o wely afonydd a nentydd Epynt gan ddefnyddio technegau hynafol i'w drin. Mae'r gwenoliaid felly yn ymgorfforiad o harddwch gwyllt a chalon tirlun Mynydd Epynt. Mae'r gwydredd raku yn ein hatgoffa o blu neu wythiennau neu wreiddiau, neu efallai ffyrdd ar fap. Mae'r gwenoliaid, wrth ddal anadl y gwynt, yn chwibanu'r gobaith y cawn ni i gyd, ryw ddiwrnod, ddychwelyd i Fynydd Epynt.

Mae Cymdeithas y Cymod yn gweithio at ddifilitareiddio Cymru, ac mae dychwelyd Mynydd Epynt i bwrpas heddychlon yn ganolog i hyn. Gallwch ddarganfod mwy am waith Cymdeithas y Cymod ac ymaelodi â'r mudiad ar eu gwefan: **cymdeithasycymod.cymru**

# Gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gofal iechyd

## Gwerfyl Roberts

### Cadeirydd yr Is-grŵp Iechyd

Does dim amheuaeth bod Pandemig Cofid-19 wedi amlygu pa mor allweddol yw cyfathrebu effeithiol mewn gofal iechyd, a bod rhannu'r un iaith yn fodd o wella dealltwriaeth a chreu sefyllfa o agosatrwydd gyda'r claf. Am hynny, ni fu erioed adeg mor bwysig yn hanes y GIG i roi ar waith 'gynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg.

Calonogol felly oedd darllen adroddiad diweddar yn y wasg am fyfyrwyr sy'n dilyn gyrfa yn y maes meddygol gan wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg – a hwythau'n hollol argyhoeddedig bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer lles cleifion. Dyma'r erthygl: bbc.co.uk/cymrufyw/57475055.

Gyda channoedd o fyfyrwyr ac ymarferwyr eraill y GIG, bu'r rhain yn gweithio'n gydwybodol drwy gydol y pandemig mewn amgylchiadau tra gofidus. Mawr yw ein dyled iddynt, yn enwedig am eu hymroddiad tuag at y Gymraeg. Mae eu profiadau yn dweud y cyfan – y cleifion hynny a oedd yn derbyn gwasanaethau ar-lein wrth eu bodd o gael torri gair yn Gymraeg, a'r meddyg ifanc a fu'n ymweld â chwpwl oedrannus yn eu cartref yn derbyn croeso arbennig ac yntau'n siarad Cymraeg ac yn dod o'r un ardal. Nid oes dwywaith bod yr iaith yn fodd i ennyn parch, i greu perthynas ac i gyfoethogi ansawdd y gwasanaeth.

Yn sgil gweledigaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'r buddsoddiad mewn addysg Gymraeg ar draws ystod o raglenni gofal iechyd i'w weld yn talu ar ei ganfed wrth i fwy a mwy o fyfyrwyr gymhwyso drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny fel ymarferwyr dwyieithog profiadol. Gyda dyfodiad yr ysgol feddygaeth i'r gogledd ac addysg nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth, daw cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth hon. Wedi'r cyfan, dyma sydd ei angen arnom – gweithlu dwyieithog i gynnal ein gwasanaethau Cymraeg ar draws y disgyblaethau. O gofio'r manteision, nid yw trigolion Cymru yn haeddu dim llai.

Ond, er gwaetha'r fath gynnydd, y gwir amdani yw nad yw'r GIG yn barod i lwyr fanteisio ar y graddedigion newydd hyn, eu sgiliau ieithyddol a'u hymrwymiad angerddol, a hynny am nad yw Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar y sector yn ddigon uchelgeisiol i arwain newid sylweddol. Mae'r diffygion o safbwynt y cleifion yn amlwg:

- dim hawl i gael ymgynghoriad clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg
- dim hawl gan gleifion allanol i wasanaethau Cymraeg
- dim hawl mewn gofal sylfaenol, megis meddygfeydd, i wasanaethau Cymraeg.

Dros ugain mlynedd yn ôl, cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf o'i fath ar y ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal (Misell, 2000) gan gyflwyno darlun tywyll a ysgogodd Llywodraeth Cymru i sefydlu tasglu a strategaeth 'Mwy na geiriau' i fynd i'r afael â'r holl ddiffygion. Un o'r pryderon mwyaf ar y pryd oedd y diffyg cynllunio a'r ffaith mai dim ond ar hap a damwain yr oedd modd cael gwasanaethau Cymraeg. Mae tystiolaeth y myfyrwyr meddygol yn dangos nad yw'r sefyllfa wedi newid, a heb safonau cryfach ac ehangach sy'n arwain at gynllunio manwl, ofer fydd eu hymdrechion i greu newid parhaus.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys i ddiwygio'r Safonau cyfredol er mwyn sicrhau gwasanaethau Cymraeg i bawb sy'n cael mynediad at y GIG; ac ymestyn y Safonau hynny i ddarparwyr gofal sylfaenol.

Galwn hefyd ar y GIG i gryfhau'r ddarpariaeth o safbwynt dysgu'r Gymraeg, magu hyder a defnyddio'r Gymraeg (ar ba bynnag lefel). Er gwaethaf holl ymdrechion swyddogion iaith y byrddau iechyd i gynnal hyfforddiant o'r fath, mae angen arweiniad a buddsoddiad llawer cryfach gan uwch reolwyr y GIG er mwyn paratoi gweithlu'r dyfodol.

# CRYMGI

## MIRAIN OWEN

Wyt ti eisiau bod yn rhan o gell Cymdeithas yr Iaith ar gyfer pobl rhwng 14 ac 20 oed? Wel… dyma dy gyfle di!

Cyfrinach llwyddiant gweithredu Cymdeithas yr Iaith yw rhwydweithio, siarad, cyfeillgarwch, a gwneud yn siŵr bod y chwyldro yn hwyl! Dyna yw nod CRYMGI – cyfle i ni gael gweithredu dros yr iaith drwy bethau fel Snapchat, Instagram a chyfryngau cymdeithasol eraill. Cyfle i ni greu fideos byr Cymraeg hwyliog i Tiktok, a chydweithio drwy ddefnyddio'r we a chyfarfod ar Zoom.

Ac, ar ôl i'r Gofid Mawr hwn ddweud hwyl fawr wrth Gymru, fe gawn ni drefnu gigs, mynd i ddigwyddiadau a gweithredu dros yr iaith a Chymreictod.

Felly, faint o aelodau sydd yn CRYMGI erbyn hyn? Wel, fi! Wyt ti eisiau ymuno? Cysyllta gyda fi ar **mirain@cymdeithas.cymru**
*Snapchat* – **@mirain13.**
*Instagram* – **mirainowen**
*Twitter* – **MirainOwen**

Y syniad gwreiddiol oedd cyfyngu'r gell i ranbarth Morgannwg/Gwent, ond o ystyried, gan ein bod yn mynd i weithredu'n rhithiol – mae croeso i unrhyw un ar draws Cymru gyfan i ddod aton ni i gael hwyl.

## NODYN I'R DYDDIADUR:

Bydd y Rali Fawr '**Nid yw Cymru ar Werth**' nesaf yn cael ei chynnal ar risiau'r Senedd ym Mae Caerdydd ddydd Sadwrn, **13 Tachwedd 2021** – rhagor o fanylion i ddilyn.




Osian Roberts